**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Rhagfyr 2010

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8026
Ffacs: 029 2089 8021
e-bost: Finance.Comm@wales.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2010
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar oblygiadau ariannol y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)

Rhagfyr 2010

**Y Pwyllgor Cyllid**

Cylch gwaith y Pwyllgor Cyllid yw sicrhau y craffir yn briodol ar gyllideb a gwariant Llywodraeth Cymru, Comisiwn y Cynulliad, yr Ombwdsmon, y Comisiynydd Plant, y Comisiynydd Pobl Hŷn a'r gwahanol Gyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru a Chyrff GIG.

Yn gyffredinol, mae gan y Pwyllgor dair prif swyddogaeth:

- –ystyried cynigion ar gyfer cyllideb y Cynulliad a chyflwyno adroddiad arnynt;
- –ystyried yr wybodaeth ariannol a gyflwynir gyda Mesurau Cynulliad, a lle bo'n briodol, cyflwyno adroddiad arni;
- –ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant y Llywodraeth neu wariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio ar y gwariant hwnnw.

**Pwerau**

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 26 Mehefin 2007. Manylir ar ei bwerau yn Rheol Sefydlog 14 Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rhain ar gael yn: **www.cynulliadcymru.org**.

**Aelodau'r Pwyllgor**



**Angela Burns (Cadeirydd)**
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru



**Lorraine Barrett**
De Caerdydd a Phenarth
Llafur



**Peter Black**
Gorllewin De Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru



**Andrew Davies**
Gorllewin Abertawe
Llafur



**Chris Franks**
Canol De Cymru
Plaid Cymru



**Brian Gibbbons**
Aberafan
Llafur



**Ann Jones**
Dyffryn Clwyd
Llafur



**Nick Ramsay**
Sir Fynwy
Plaid Geidwadol Cymru



**Janet Ryder**
Gogledd Cymru
Plaid Cymru

**Adroddiad ar y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru)**

<u>Dyfyniadau o'r Rheolau Sefydlog:</u>

*14.2 Caiff y Pwyllgor [Cyllid] hefyd ystyried y canlynol ac, os yw'n gweld yn dda, gyflwyno adroddiadau arnynt:*

*i. gwybodaeth ariannol yn y memoranda esboniadol sy'n cyd-fynd â Mesurau Cynulliad arfaethedig;*

…………………………………………………………..

*23.18 Ar yr un pryd ag y bydd [yr Aelod sy'n gyfrifol] yn cyflwyno Mesur arfaethedig, rhaid hefyd gosod Memorandwm Esboniadol y mae'n rhaid iddo:*

*(vi) nodi'r amcangyfrifon gorau o'r canlynol:*

*(a) unrhyw gostau gweinyddol, costau cydymffurfio a chostau eraill y byddai darpariaethau'r Mesur arfaethedig yn arwain atynt;*
*(b) dros ba gyfnodau amser y disgwylid i'r costau hynny godi; ac*
(c) *lle y byddai'r costau'n syrthio;*

**Cyflwyniad**

1. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef yn ei gyfarfod ar 4 Tachwedd 2010, a chymerodd dystiolaeth gan:

- Carl Sargeant AC, y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
- Frank Cuthbert, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Emma Locke, Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Stephen Phipps, Llywodraeth Cynulliad Cymru

2. Bu'r Pwyllgor Cyllid hefyd yn ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 3 mewn ymateb i'w

ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys cwestiwn penodol ar oblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig: *Beth yw goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig i sefydliadau, os o gwbl? Wrth ateb y cwestiwn hwn, efallai yr hoffech ystyried Adran 2 y Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol), sy'n amcangyfrif costau a manteision gweithredu'r Mesur arfaethedig.*

3. Yn ogystal â hyn, bu'r Pwyllgor Cyllid yn ystyried llythyrau dilynol gan Gadeirydd Comisiwn Llywodraeth Leol Cymru, dyddiedig 11 Tachwedd, a gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, dyddiedig 18 Tachwedd. Cafodd y Pwyllgor Cyllid hefyd e-bost gan Gymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr (Cangen Cymru) yn cynnwys sylwadau penodol ar y cwestiwn o fynediad at gyfarfodydd o bell.

**<u>Cefndir</u>**

4. Dywed y Memorandwm Esboniadol y bydd y Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol yn gwneud newidiadau y bwriedir iddynt atgyfnerthu strwythurau llywodraeth leol yng Nghymru a gwella'r modd y mae'n gweithio, a hynny ar bob lefel. Bwriedir i'r newidiadau fod yn fodd hefyd i sicrhau bod cynghorau lleol yn estyn allan at bob sector o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt, ac yn ymgysylltu â hwy.

5. Mae'r Mesur arfaethedig yn darparu ar gyfer:

(i) ehangu a chynyddu cyfranogiad mewn llywodraeth leol drwy ganiatáu camau a fydd yn helpu i gael gwared ar y rhwystrau a'r anghymhellion sy'n atal pobl rhag sefyll mewn etholiadau cynghorau lleol (*Rhannau 1-2 o'r Mesur arfaethedig*);

(ii) adolygu a gwella'r strwythurau llywodraethu a gyflwynwyd drwy gyfrwng Deddf Llywodraeth Leol 2000 fel y bo'r strwythurau hynny'n gweddu'n well i amgylchiadau llywodraeth leol yng Nghymru (*Rhannau 3-4)*;

(iii) cryfhau rôl cynghorwyr nad ydynt yn aelodau o weithrediaethau'r awdurdodau lleol ("aelodau'r meinciau cefn") mewn perthynas â chraffu ar wasanaethau lleol (*Rhannau 5-6)*;

(iv) datblygu a chryfhau rôl cynghorau cymuned yng Nghymru, gan gynnwys eu galluogi i gyflenwi ystod ehangach o wasanaethau ac i

weithredu'n ehangach yn lleol, ac i fod yn fwy effeithiol o ran eu rôl fel cynrychiolwyr ac o ran eu gallu i weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill (*Rhan 7*);

(v) diwygio'r system ar gyfer pennu lwfansau cynghorwyr (*Rhan 8*);

(vi) caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau statudol ar gydlafurio rhwng awdurdodau lleol, a chydlafurio rhwng awdurdodau lleol a chyrff eraill *(Rhan 9).*

**Costau sy'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig**

**6.** Mae'r Memorandwm Esboniadol[1] yn cynnwys tabl o'r costau posibl a all godi oherwydd y Mesur arfaethedig. Caiff y costau hyn eu crynhoi isod. Dywed y Memorandwm Esboniadol bod nifer o ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig yn niwtral o ran cost. Lle y mae'r costau wedi eu nodi, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gostau cydymffurfio a chostau gweinyddol ar gyfer awdurdodau lleol. Bernir fod y costau cydymffurfio i brif gynghorau'n ymylol. Byddai'r Mesur arfaethedig yn pennu dyletswyddau sydd eisoes wedi'u sefydlu fel arfer da ymhlith awdurdodau. Bydd unrhyw gostau newydd sy'n codi yn gyfuniad o gostau unigol a chostau gweinyddol parhaol. Disgwylir i'r costau ychwanegol hyn fod yn gymesur â maint y sefydliad, ac fe ellir eu talu drwy fabwysiadu dulliau mwy effeithlon o weithio; dylent arwain at arbedion effeithlonrwydd yn yr hir dymor drwy well lywodraethu a gwaith craffu mwy effeithiol.

7. Mae'r wybodaeth yn nhabl 1 yn awgrymu bod costau posibl y Mesur arfaethedig rhwng £240,500 a £577,500. Fodd bynnag, maent yn cynnwys cyfuniad o gostau cychwynnol, rhai costau blynyddol, a rhai costau llai cyson sy'n ddibynnol ar amgylchiadau ar y pryd.

8. Mae'r ffigurau hefyd yn awgrymu bod y costau i'w talu gan awdurdodau rhwng tua £123,000 a £460,000; bod y costau i'w talu gan yr adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol tua £87,500, a bod y costau i'w talu gan y sector cyhoeddus ehangach tua £30,000.

[1] Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru), Memorandwm Esboniadol, para 8.8

## Tabl 1: Costau posibl yn codi yn sgil y Mesur arfaethedig

| Amcan | Cost posibl (£) | Sylwadau | Costau i'w talu gan |
|---|---|---|---|
| **Rhan 1: Atgyfnerthu democratiaeth leol (adrannau 1-22)** | | | |
| Arolwg o ymgeiswyr a chynghorwyr | 35,000 | Cymru gyfan (£1,750 yr awdurdod). I'w gynnal bob 4 blynedd | Yr Adran Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol |
| Asesu'r arolwg | 2,500 | | Yr adran GCLlL |
| Hyfforddi a datblygu | 5,000 | Fesul awdurdod,; arian ysgogi yn ôl y galw | Yr awdurdod |
| Arfarniadau perfformiad blynyddol | 2,500 | Costau sefydlu fesul awdurdod lle nad ydynt yn cael eu cynnal eisoes | Yr awdurdod |
| Mynychu o bell | 2,000 | Costau cychwynnol fesul awdurdod lle nad yw cyfleusterau ar gael eisoes | Yr awdurdod |
| Gwasanaethau Democrataidd | 12,500 | Cost bylynyddol fesul awdurdod | Yr awdurdod |
| **Rhan 2: Absenoldeb teuluol ar gyfer aelodau awdurdodau lleol (adrannau 23-32)** | | | |
| | | Ni roddwyd unrhyw gostau. | |
| **Rhan 3: Trefniadau llywodraethu sydd ar gael (adrannau 33-35)** | | | |
| Dileu'r trefniadau amgen | 80,000 - 400,000 | Fesul awdurdod, gan ddibynnu ar faint yr awdurdod | Yr awdurdod |
| **Rhan 4: Newidiadau mewn trefniadau gweithrediaeth (adrannau 36-53)** | | | |
| | | Ni roddwyd unrhyw gostau. | |
| **Rhan 5: Swyddogaethau awdurdod lleol: cyflawni gan bwyllgorau a chynghorwyr (adrannau 54-56)** | | | |
| | | Ni roddwyd unrhyw gostau. | |
| **Rhan 6: Trosolwg a chraffu (adrannau 57-90)** | | | |
| Sefydlu cyd-bwyllgor trosolwg a chraffu | 5,000 | Costau sefydlu a chostau rhedeg yn ystod y flwyddyn gyntaf, fesul pwyllgor | I'w rhannu rhwng awdurdodau |
| Craffu ar y sector cyhoeddus ehangach | 30,000 | Costau blynyddol ar draws Holl gyrff y sector cyhoeddus | Sefydliadau yn y sector cyhoeddus |
| Ystyried safbwyntiau'r cyhoedd | 3,000 | Cost sefydlu fesul awdurdod | Yr awdurdod |
| Sefydlu pwyllgor archwilio | 5,000 | Cost sefydlu fesul awdurdod lle nad yw pwyllgor archwilio'n bodoli | Yr awdurdod |
| **Rhan 7: Cymunedau a chynghorau cymuned (adrannau 91-143)** | | | |
| Hysbysebu swyddi gwag i'w llenwi drwy gyfethol | 5 | Fesul hysbysiad | Cynghorau cymuned |
| Cost cynnal adolygiad cymunedol | 8,000 - 25,000 | Fesul awdurdod, yn ddibynnol ar ei faint | Yr awdurdod. Ar hyn o bryd, yn gyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol; mae rhai wedi'i osgoi a throsglwyddo'r gost i'r Comisiwn Ffiniau |
| **Rhan 8: Aelodau: Taliadau a phensiynau (adrannau 144-163)** | | | |
| Costau rhedeg y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol | 50,000 | Cost blynyddol | Yr Adran GCLlL |
| **Rhan 9: Cyffredinol (adrannau 164-172)** | | | |
| | | Ni roddwyd unrhyw gostau. | |

**Trafodaeth**

9. Bu'r Pwyllgor Cyllid yn trafod goblygiadau ariannol y Mesur arfaethedig gyda'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol; gellir gweld manylion llawn y drafodaeth yng Nghofnod y Trafodion.

Costau cyffredinol

10. Nododd y Pwyllgor Cyllid bod rhai cyfranwyr at ymgynghoriad y Pwyllgor Deddfwriaeth wedi datgan y farn y byddai'r costau'n uwch na'r ffigurau a nodwyd, ac wedi cwestiynu pa mor briodol yw gorfodi cyrff cyhoeddus i dalu costau o'r fath yn yr hinsawdd ariannol bresennol a chyfnod o bwysau ariannol enbyd.

11. Dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol[2] nad oedd yn derbyn bod y costau wedi cael eu tan-amcangyfrif, a bod llawer o'r diwygiadau a awgrymodd yn golygu dim cost o gwbl neu gostau ymylol yn unig. Dywedodd bod y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar wahanol gamau yn eu datblygiad a ni fyddai llawer ohonynt yn dechrau o'r cychwyn cyntaf. Yn wir, roedd llawer ohonynt eisoes yn cynnig gwasanaethau da iawn i'r perwyl hwn. Diben y Mesur arfaethedig hwn oedd galluogi gwasanaethau i godi i lefel sy'n gynaliadwy ac yn gyson ledled Cymru.

12. Er bod y Gweinidog yn cydnabod[3] yr amgylchiadau ariannol presennol, nid oedd yn credu y dylent gilio i ffwrdd o fwrw ymlaen â gwelliannau o ganlyniad i hynny. Ni ddylai amgylchiadau ariannol gael eu defnyddio fel esgus am beidio newid y broses ddemocrataidd o ddatblygu gwell gwasanaethau ar gyfer pobl Cymru.

Arolygon yn etholiadau prif gynghorau a chynghorau cymunedol

13. Nododd y Pwyllgor Cyllid bod anghenion awdurdodau'n wahanol mewn perthynas ag arolygon yn etholiadau prif gynghorau a chynghorau lleol. Os byddai'r gyllideb yn cael ei dosbarthu drwy fecanwaith y Grant Cymorth Refeniw, mae'n bosibl na fyddai'n rhoi cymorth lle y byddai hynny'n fwyaf effeithiol. Fodd bynnag, mae'r Gweinidog dros Gyfiawnder

[2] Cofnod y Trafodion p11, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[3] Cofnod y Trafodion p12, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi gwneud ymrwymiad yn y gorffennol at symud i ffwrdd o neilltuo a grantiau penodol.

14. Cadarnhaodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol[4] y byddai cymorth yn dibynnu ar nifer yr ymgeiswyr sy'n sefyll i fod yn gynghorwyr sir a chynghorwyr cymuned ac yn gymesur ar gyfer pob awdurdod. Ailadroddodd[5] ei ymrwymiad i leihau grantiau penodol, ond dywedodd bod amgylchiadau ychydig yn wahanol yn yr achos hwn, gydag etholiadau pob pedair blynedd yn unig, ac mai dyma'r peth ymarferol a chywir i'w wneud.

Hyfforddiant a Datblygu

15. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid a fyddai'n briodol cynyddu'r ffrwd ariannu mewn modd cymesur, o ystyried bwriad y Gweinidog i gynyddu hyfforddiant a datblygu, ac i sicrhau lefel o arfer da ar draws pob awdurdod, yn hytrach na disgwyl i awdurdodau ysgwyddo baich y costau hyn.

16. Dywedodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol[6] nad oedd yn credu bod y Llywodraeth yn gofyn i'r awdurdodau wneud unrhyw beth na ddylent for yn ei wneud yn barod. Dywedodd bod awdurdodau eisoes yn cymryd rhan yn siarter datblygiad yr aelodau ac mai dyma'r safon y dylent geisio ei gyrraedd; y cyfan yr oedd ef yn ei wneud oedd rhoi dyletswydd arnynt i weithredu i'r perwyl hwnnw.

Mynediad at gyfarfodydd o bell

17. Gofynnodd y Pwyllgor Cyllid am ddarpariaethau'r Mesur arfaethedig a fyddai'n hyrwyddo mynediad at gyfarfodydd cynghorau o bell ac, yn benodol,[7] am y gwaith a wnaethpwyd i benderfynu ar lefel yr amrywioldeb rhwng awdurdodau o ran y ddarpariaeth bresennol. Roedd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn synnu[8] at y pryderon a godwyd mewn perthynas â'r costau o ddarparu mynediad o bell. Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn bod yn rhagnodol wrth ddweud y dylai pob cyfarfod cyngor fod ar gael drwy'r we. Byddai'r ddeddfwriaeth yn rhoi sail gyfreithiol i awdurdodau gynnal cyfarfodydd gan ddefnyddio

[4] Cofnod y Trafodion p18, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[5] Cofnod y Trafodion p20, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[6] Cofnod y Trafodion p51, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[7] Cofnod y Trafodion p52, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid
[8] Cofnod y Trafodion p53, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

dulliau mynediad o bell. Mewn ateb i gwestiwn ar y costau, dywedodd[9] bod y dystiolaeth wedi nodi cost o £21,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd yng Nghaerdydd dros y we, ond nad oedd yn credu bod angen i bob awdurdod wynebu costau o'r fath. Bydd y modd o ddarparu mynediad o bell i'w benderfynu gan yr awdurdodau unigol, ac y byddai hyn yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd yn y gorffennol. Nododd y Gweinidog[10] ei farn y gellid cyflawni hwn yn syml iawn drwy system fel camera'n gysylltiedig â chyfrifiadur personol yn y cartref yn darlledu drwy rwydwaith y cyngor.

18. Mewn e-bost at y Pwyllgor Cyllid,[11] roedd Cymdeithas Ysgrifenyddion y Pwyllgorau a Chyfreithwyr (Cangen Cymru) yn cwestiynu a fyddai'n bosibl i anghenion y Mesur arfaethedig cael eu bodloni gan system mor syml. Cafwyd cyfeiriad at adran 4 y Mesur arfaethedig sy'n darparu bod rhaid i aelodau sy'n cymryd rhan o bell allu gweld, clywed a bod yn weladwy ac yn glywadwy, gan aelodau'r cyhoedd sydd yn yr ystafell bwyllgora - a'u bod yn gallu clywed ei gilydd. Mewn ymateb i'r pryderon hyn, ailadroddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol[12] nad oedd yr adran honno'n rhagnodol ynghylch pa gyfarfodydd ddylai caniatáu mynediad o bell. Dywedodd y byddai'n ymgynghori ar arweiniad ynghylch y mater hwn i sicrhau bod mynediad o bell yn ymarferol a na fydd yn golygu pwysau ariannol afresymol.

## Casgliadau

19. Croesawodd y Pwyllgor Cyllid y dadansoddiad manwl o gostau'n gysylltiedig â'r Mesur arfaethedig hwn. Nododd y Pwyllgor bod y costau hyn yn seiliedig ar y ffaith bod y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ar gamau gwahanol iawn yn eu datblygiad a bod llawer ohonynt eisoes yn darparu gwasanaethau da iawn yn unol â'r hyn y bwriedir i'r Mesur arfaethedig ei gyflawni. Amcan y Mesur arfaethedig yw galluogi gwasanaethau i gyrraedd lefel sy'n gynaliadwy a chyson ledled Cymru. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn derbyn na fyddai pob awdurdod lleol yn dechrau o'r cychwyn cyntaf, ac y byddai amgylchiadau a chostau'n amrywio.

---

[9] Cofnod y Trafodion p53, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

[10] Cofnod y Trafodion p58 a 59, 4 Tachwedd 2010, y Pwyllgor Cyllid

[11] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10(p6), *Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) – Gwybodaeth gan Gymdeithas Ysgrifenyddion y Cynghorau a Chyfreithwyr, Cangen Cymru,* 2 Rhagfyr 2010

[12] Y Pwyllgor Cyllid FIN(3)-21-10(p4), *Goblygiadau ariannol Mesur Arfaethedig ynghylch Llywodraeth Leol (Cymru) – Gwybodaeth gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol*, 2 Rhagfyr 2010

20. Nododd a derbyniodd y Pwyllgor Cyllid y byddai'n dderbyniol mewn rhai amgylchiadau, yn enwedig mewn perthynas ag etholiadau, efallai y byddai'n briodol defnyddio mecanwaith gyllidebu wedi'i dargedu y tu hwnt i'r system Grant Cymorth Refeniw.

21. Nododd y Pwyllgor Cyllid bryderon ynghylch darparu mynediad at gyfarfodydd cyngor o bell. Er ei fod yn derbyn bod y rhan hwn o'r Mesur arfaethedig yn bŵer galluogi yn hytrach na phŵer rhagnodol, mae'r Pwyllgor yn tueddu i feddwl bod y math o dechnoleg sydd ei hangen i ddarparu mynediad ychydig yn fwy soffistigedig na'r hyn a awgrymwyd gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol - a'r costau'n fwy. Mae'r Pwyllgor, felly, yn croesawu ei ymrwymiad i ymgynghori cyn cyhoeddi arweiniad ar y mater hwn i sicrhau bod y cynllun hwn yn ymarferol heb osod baich ariannol afresymol ar ysgwyddau'r awdurdodau. Yn amodol ar y sylwadau hyn, nid yw'r Pwyllgor Cyllid yn gweld unrhyw reswm dros wrthwynebu'r Mesur arfaethedig ar sail ariannol.

**Angela Burns**
**Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid**